Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Y Gwernant
# Pengwern
# Llangollen
# LL20 8AR

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Y Gwernant

Lleolir Ysgol Gymraeg y Gwernant ym mhentref Llangollen yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae 142 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 16 oed meithrin rhan-amser. Mae'r ysgol yn rhannu safle gydag ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig o dan 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Tua 4% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn hafal i'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2005 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sydd â ffocws clir ar hyrwyddo safonau rhagorol o ran lles disgyblion. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y caiff llais y disgyblion ei gynnwys yn llawn wrth wneud penderfyniadau am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau bron pob disgybl tuag at ddysgu yn gryf ac maent yn dangos balchder yn eu hysgol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol a llwyddiannus i feithrin a chynnal perthynas waith arbennig â'r disgyblion. Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol gyda bron pob un yn arddangos lefel uchel o barch a chwrteisi tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Mae profiadau cyffrous yn cymell a chefnogi disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r ddarpariaeth yn annog y disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o'i gwaith a'i bywyd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, eu diwylliant a'u treftadaeth Gymreig.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod gadarn. Mae ganddi weledigaeth angerddol a chlir ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac ysgogol i'r disgyblion. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos ac yn hynod effeithiol fel tîm. Mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gref lle mae staff yn wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg yn frwdfrydig a hyderus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau rhifedd y disgyblion wrth iddynt gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm.

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson dda i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â’r ddarpariaeth anturus a chyffrous sy’n gwella lles ac agweddau disgyblion at ddysgu, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl yn llwyddiannus ar draws ystod o feysydd dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd arbennig yn erbyn eu targedau.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn talu sylw yn y dosbarth ac yn dangos parch tuag at ei gilydd wrth drafod eu gwaith neu wrando ar eu syniadau. Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau llafar o ystyried eu cefndir ieithyddol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd amrywiol, er enghraifft wrth siarad yn hyderus am nodweddion stori dda a bwriadau'r awdur. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad â lefel dda o gywirdeb, ac yn mynegi barn a holi cwestiynau'n aeddfed. Er enghraifft, maent yn trafod yn synhwyrol sut y gallant ddylunio awyren arbennig i gwmni rhyngwladol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Mae gan ran fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen wybodaeth dda am seiniau llythrennau ac maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn fuddiol i ddarllen testunau anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr hyderus. Maent yn darllen yn rhwydd gan amrywio goslef llais a chymeriadu'n effeithiol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr rhugl yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol oddi ar wefannau priodol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi ymchwilio i wybodaeth am offer achub bywyd er mwyn llunio pamffledyn i drigolion lleol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sillafu geiriau amlsillafog yn hyderus ac yn dewis geiriau i greu effaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio berfau gorchmynnol yn gadarn wrth ysgrifennu prif reolau diogelwch y ffordd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn briodol, er enghraifft wrth lunio gwefan ddeniadol a phwrpasol ar Gymru. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig mewn ystod o ffurfiau.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth brynu hufen iâ yn y dosbarth Derbyn. Ym Mlwyddyn 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o fesur a phwyso wrth adeiladu cwch arbennig i gymeriad ffuglennol, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio canrannau'n llwyddiannus i gyfrifo prisiau nwyddau sydd ar sêl yn y siop. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn

deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth amrywiol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell i ddangos effaith ymarfer corff ar guriad calon. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gyson ar yr un lefel uchel mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. O oed ifanc, mae disgyblion yn defnyddio gwahanol apiau'n fwriadus, er enghraifft wrth greu pictogram o'u hoff anifeiliaid. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r we yn hyderus i gywain gwybodaeth am ofodwyr, er enghraifft. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn creu cronfa ddata yn llwyddiannus er mwyn crynhoi gwybodaeth allweddol am wledydd fel Brasil, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn plethu ystod o fedrau digidol yn fedrus i greu cyflwyniadau amlgyfrwng. Er enghraifft, maent wedi creu gwefan ar Gymru. Mae eu dealltwriaeth o e-ddiogelwch yn gadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r ffaith bod eu llais yn ganolog i holl weithgareddau'r ysgol a bod amrywiaeth eang o gyfleoedd iddynt fynegi barn ar y gwahanol gynghorau a phwyllgorau. Mae disgyblion yn rhannu eu blaenoriaethau yn effeithiol gyda'r rhanddeiliaid ac yn arwain ar wahanol fentrau yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi cynhyrchu fideo defnyddiol er mwyn hyfforddi 'Bydis Buarth' i gefnogi lles disgyblion. Nodwedd gref o waith y cynghorau hyn yw'r ffordd maent yn cyfuno â'i gilydd i arwain ar fentrau penodol. Maent, er enghraifft, wedi trefnu diwrnod eco a lles ar gyfer yr ysgol gyfan yn ogystal â chydweithio i fonitro defnydd plastig ym mocsys bwyd eu cyfoedion. Mae'r aelodau'n hyderus iawn wrth gydweithio ag asiantaethau allanol ar brosiectau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cwrdd â chynrychiolwyr o wahanol fusnesau'r dref er mwyn eu hannog i hybu'r iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau. Mae bron pob disgybl yn falch o'u Cymreictod a'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl am bwysigrwydd yfed dŵr, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn hynod gadarn. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n gyfoethog wrth iddynt gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol a drefnir gan y staff neu aelodau'r cyngor ysgolion iach. Mae aelodau'r cyngor hwn yn hyrwyddo ffitrwydd yn ardderchog ac yn annog eu cyd-ddisgyblion i gadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hwyliog. Maent yn arwain sesiwn ddawns ysgol gyfan ar ôl egwyl, er enghraifft. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Caiff hwn ei gefnogi'n effeithiol iawn gan yr arweinwyr digidol, sy'n llunio cyflwyniadau a chynnal gweithdai hynod lwyddiannus i randdeiliaid yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn arddangos lefel uchel iawn o barch a chwrteisi tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Maent yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr mewn ffordd gyfeillgar, naturiol a hynaws iawn. Mae bron pob disgybl yn falch o'u hysgol ac yn cyfrannu'n weithgar iawn tuag at greu'r ethos gofalgar a chartrefol sy'n treiddio trwy bob agwedd o'i gwaith. Nodwedd gref yw'r ffordd mae disgyblion yn cefnogi ei gilydd o fewn gwersi ac ar y buarth. Mae'r cynllun 'Gweld pedwar cyn fi' yn sicrhau bod bron pob un disgybl yng nghyfnod

allweddol 2 â chyfrifoldeb am wahanol agweddau o fewn eu dosbarthiadau. Maent yn cynnig cymorth i'w cyfoedion mewn gweithgareddau amrywiol fel cywiro iaith neu ddatrys problem TGCh. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at greu ymdeimlad o dîm a hunanhyder ymhlith y disgyblion.

Mae'r bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn awyddus i gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau a phrofiadau dysgu cyfoethog sydd ar gael iddynt. Mae bron pob disgybl yn hynod frwdfrydig ac yn dangos cymhelliant iach ac agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn gweithio'n hyderus ac effeithiol mewn parau neu grwpiau ac yn dyfalbarhau i ymdrechu'n annibynnol ar dasgau am gyfnodau estynedig. Mae'r 'Amser Antur', pan gânt gyfle yn wythnosol i gwblhau ystod o weithgareddau anturus, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau dysgu bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad i'r cynllun gwobrwyo hwn, mae'r disgyblion yn awyddus i gwblhau tasgau a ddechreuwyd ganddynt yn brydlon ac yn datblygu dealltwriaeth cynyddol o werth gweithio'n gydwybodol. Maent yn bwrw at eu gwaith yn syth yn hytrach nag oedi ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain trwy ofalu eu bod yn cwblhau gwaith cartref ar amser a thrwy ddyfalbarhau ar dasgau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm a ddarperir gan yr ysgol yn effeithiol. Mae'r cynlluniau wedi eu seilio ar ffurf themâu cyffrous sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. Mae pob thema yn dechrau gyda symbyliad pwrpasol, er enghraifft esgid Sinderela yn ymddangos y tu allan i ddosbarth Blwyddyn 1 a 2 neu estroniaid yn ymosod ar ddosbarth Blwyddyn 6. Mae'r cynllunio yn cynnwys cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddewis yr hyn maent am ei ddysgu ac i benderfynu ar y dull gorau o gofnodi eu gwaith. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi'n llwyr i'w dysgu ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Cyfoethogir y cwricwlwm yn effeithiol drwy gynnal ymweliadau i'r disgyblion i fannau diddorol, a thrwy ddefnyddio arbenigedd ymwelwyr fel aelodau o gwmni rhyngwladol er mwyn gosod her i'r disgyblion i ddylunio awyren arbennig. Mae cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol. Mae enghraifft lwyddiannus o hyn yn cynnwys sut y gwnaeth y disgyblion ymateb i dasg gyfoethog drwy ddod i gasgliadau aeddfed am wlad ddelfrydol ar gyfer plentyn o Affrica. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn dangos empathi am fywydau pobl eraill ac yn sylweddoli nad yw pob plentyn mor ffodus â nhw.

Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn effeithiol, ar y cyfan. Maent yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion gymhwyso eu medrau trwy weithgareddau diddorol ar draws pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol a meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Gwneir defnydd effeithiol a rheolaidd o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion mewn ystod eang o weithgareddau. Er enghraifft, mae athrawon y cyfnod sylfaen yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gynllunio hylif hud yn yr ardd wyllt, adeiladu trelar yn yr ardal greu a pherfformio storïau amrywiol ar y llwyfan. Mae'r staff yn paratoi adnoddau deniadol a phwrpasol i hyrwyddo chwilfrydedd y disgyblion, sy'n eu hannog i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn talu digon o sylw i wella medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion nac yn rhoi digon o gyfleoedd, yn drawsgwricwlaidd, iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd yn annibynnol i'r un lefel uchel a geir yn eu gwaith mathemateg.

Mae'r cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan hollol greiddiol a naturiol o holl waith yr ysgol. Mae'r athrawon yn modelu iaith yn ardderchog ac yn trochi'r disgyblion gyda Chymraeg loyw yn fuan iawn. Gwneir hyn yn llwyddiannus o fewn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn gyson. Mae'r ddarpariaeth hon yn cryfhau medrau llafar pob disgybl yn llwyddiannus, yn arbennig y rhai sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, fel Clwb yr Urdd a'r Clwb Chwaraeon yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu iaith y disgyblion.

Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac mae perthynas hynod adeiladol a chefnogol yn bodoli rhyngddynt ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu amgylchedd lle mae disgyblion yn barod iawn i weithio'n galed ac i wneud eu gorau i gwblhau tasgau. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhannu amcanion eglur ar gyfer gwersi ac yn defnyddio amrywiol dechnegau holi effeithiol i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant, o ran tasgau rhifedd ac ysgrifennu estynedig, yn ddigon penodol i gyfateb i ystod gallu'r holl ddisgyblion.

Mae'r trafodaethau aeddfed sy'n bodoli rhwng oedolyn a disgybl yn cyfrannu'n llwyddiannus at lywio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar amserol, ystyrlon ac ysgogol i'r disgyblion. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion drwy hybu trafodaethau pâr effeithiol. Er enghraifft, cyflwynir 'CAM' i'r disgyblion sef amser cywiro, addasu a myfyrio. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn dechrau gwella agweddau o'u gwaith yn effeithiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad ardderchog disgyblion yn llwyddiannus iawn. Elfen gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd mae'r holl staff yn ymrwymo'n hynod effeithiol i sicrhau lles disgyblion, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer holl gynghorau'r ysgol yn cyfrannu'n arbennig tuag at yr ethos teuluol, gofalgar a chynhwysol sy'n bodoli. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, yn ymfalchïo yn eu hysgol, ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o weithdrefnau sy'n hyrwyddo hyn yn ardderchog. Un nodwedd gref yn y maes hwn yw'r 'Amser Antur' wythnosol sy'n llwyddo i ysgogi disgyblion i ennill pwyntiau am agweddau amrywiol, fel gweithio'n annibynnol, dyfalbarhau, a datblygu eu Cymreictod a'u hunanhyder. O ganlyniad i'w llwyddiant, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous, uchelgeisiol a diddorol. Mae hyn yn eu paratoi yn hynod effeithiol ar gyfer delio'n gadarnhaol â phrofiadau bywyd yn y dyfodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol iawn i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r weithdrefn yn hawdd i'w defnyddio ac mae staff yn adnabod anghenion addysgol, emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn gynnar. Mae athrawon a chymorthyddion yn darparu ar eu cyfer drwy gynnig ystod eang o raglenni ymyrraeth a chefnogaeth lwyddiannus iawn iddynt. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu sesiynau therapi chwarae yn rheolaidd, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar grwpiau o blant sydd ag anghenion emosiynol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn magu hyder ynddynt eu hunain ac yn deall pwysigrwydd rhannu pryderon gydag eraill. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn â nhw.

Mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd priodol i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac arwain. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol ac yn cynnwys cyngor ysgol gweithgar iawn, cyngor eco, llysgenhadon gwych, cyngor ysgolion iach a elwir yn SNAG, arweinwyr digidol a chriw y siarter iaith. Mae'r cyngor ysgol yn canolbwyntio'n effeithiol ar agweddau o les disgyblion, fel atgyfnerthu rôl y 'Bydis Buarth' a gwella'r ardaloedd chwarae yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ynghyd ag amrywiaeth eang o weithgarwch corfforol i'r disgyblion. Mae'r cyngor ysgol iach yn arwain sesiynau gweithgarwch yn llwyddiannus i ddatblygu medrau corfforol disgyblion a chynyddu lefelau eu cyfranogiad yn ystod y diwrnod ysgol. Maent yn arwain gweithgaredd dawnsio dyddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion, er enghraifft.

Wrth weithredu sesiynau amser cylch a chyfnodau ymyrraeth lles ar gyfer grwpiau penodol, mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol hynod werthfawr. Mae'r agwedd hon yn cael sylw cyson a thrylwyr ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwasanaethau dosbarth ac ysgol gyfan a'r amseroedd cylch hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae'r athrawon yn defnyddio cwmnïau lleol, ymweliadau â mannau diddorol, ac ymwelwyr fel artistiaid i sbarduno prosiectau diddorol yn seiliedig ar fywyd go iawn y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn arbennig o effeithiol. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion berfformio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt, gan ddatblygu eu hunanhyder, eu balchder yn eu hunain a'u gallu i gydweithio ag eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd, perfformio sioeau cerdd ar lwyfan Pafiliwn Llangollen a chanu mewn gwasanaethau fel 'Goleuo Bywyd' er mwyn casglu arian at hosbis Tŷ'r Eos.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cryf iawn â rhieni ac mae'n eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Mae trefniadau'n cynnwys adroddiadau cynnydd manwl a nosweithiau rhieni rheolaidd. Mae'r 'Bore Agored Blynyddol' sy'n rhoi'r cyfle i rieni ymweld â'r ysgol yn ystod gwersi yn llwyddiannus iawn. Mae'n codi ymwybyddiaeth y rhieni o sut mae'r athrawon yn addysgu agweddau o'r cwricwlwm ac yn gyfle iddynt dderbyn hyfforddiant am adnoddau digidol yr ysgol ac ati. Mae hyn yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn. Mae gwefan yr ysgol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill yn rhoi gwybodaeth gyfredol a manwl iddynt am weithgareddau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i sicrhau bod y safle yn fan diogel. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â'r ysgol gyfagos er mwyn rheoli mynediad diogel i'r safle. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol glir i'r ysgol. Mae'n arwain yr ysgol yn hyderus ac yn ddeallus ac mae ganddi weledigaeth angerddol a chlir ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac ysgogol i'r disgyblion, sy'n cael ei rhannu'n frwd gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r pennaeth wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r ysgol fel cymuned sy'n hybu Cymreictod, meithrin parch ac annog gwaith tîm llwyddiannus. Mae ei dulliau cyfathrebu medrus yn elfen gref o'i harweinyddiaeth. Mae ganddi berthynas gynhyrchiol iawn gyda'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. O ganlyniad, maent yn cydweithio'n hynod lwyddiannus i godi safonau, sicrhau lles, a hybu Cymreictod pob disgybl.

Mae gweithdrefnau a dogfennau rheolaethol yr ysgol yn drefnus a chlir iawn. O ganlyniad, mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn eu cyflawni'n eithriadol o effeithiol. Mae'r arweinwyr ar bob lefel yn frwdfrydig ac yn cefnogi'r pennaeth yn ardderchog. Maent wedi ymrwymo i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel trwy gefnogi a chynorthwyo athrawon mewn modd sensitif a chynhaliol. Maent yn annog a meithrin ethos cadarnhaol a gofalgar o gydweithio. Mae'r nodwedd hon yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae staff cymorth yn rhan annatod o'r tîm hwn ac yn cyfrannu'n gydwybodol iawn at wella safonau a lles disgyblion.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn flaengar ac yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at ddatblygiad proffesiynol y staff. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cael cyfleoedd i greu cymunedau dysgu y tu hwnt i'r ysgol. Maent yn dewis agweddau i'w datblygu, yn cyflawni gwaith ymchwil, rhannu arfer dda a chreu cyflwyniadau defnyddiol iawn i'w rhannu gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y modd mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio i ddatblygu medrau annibynnol y disgyblion.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Maent yn ymroddgar, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth ac am safonau. Mae gan bob aelod gyfrifoldeb penodol am agweddau o'r cynllun datblygu ysgol ac maent yn monitro cynnydd yn rheolaidd. Trwy gynnal teithiau dysgu, ac wrth dderbyn adroddiadau manwl gan y pennaeth, maent yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn drylwyr iawn. Maent yn gweithredu'n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol hanes o sicrhau gwelliant parhaus hynod effeithiol. Mae trefniadau hunanwerthuso'r ysgol yn drylwyr iawn ac wedi eu seilio ar amrediad eang o dystiolaeth ddibynadwy. Mae'r staff yn cyfrannu'n uniongyrchol at y trefniadau trwy safoni a chymedroli gwaith y disgyblion a monitro ansawdd y ddarpariaeth yn gyson. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r cyswllt sy'n bodoli rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn glir. Mae'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau yn llywio gwaith yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn arwain at welliant mewn sawl maes, sy'n cynnwys gwella medrau mathemateg y merched yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno strategaethau effeithiol yn ddiweddar i weithredu'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau llafar a darllen y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol iawn a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o arbenigwyr ymhlith y staff ategol i hybu ffitrwydd a lles y disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu awyr agored a dan do yn ddeniadol ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r staff yn defnyddio'r holl adnoddau yn llwyddiannus er mwyn cefnogi dysgu a lles disgyblion. Maent wedi creu amgylchedd ddysgu ysgogol lle y mae'r staff yn mwynhau addysgu a'r disgyblion yn awyddus i ddysgu.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â’r blaenoriaethau gwella ac yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i sicrhau lles a chodi safonau darllen a rhifedd y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae pob disgybl cymwys yn gwneud cynnydd da ac yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau’r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2019